**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**11EG RHAGFYR 2002**

**TREFNIADAU ETHOLIADOL LLYWODRAETH LEOL YNG NGHYMRU**

**LGH-18-02(P.2)**

**Diben**

1. Hysbysu'r Pwyllgor o ganlyniadau'r ymgynghoriad a chynnig camau gweithredu posibl.

**Argymhelliad**

2. Bod y pwyllgor yn nodi canlyniadau'r ymgynghoriad ac yn ystyried y cynigion gan Weinidog y Cynulliad.

**Cefndir**

3. Cyhoeddodd y Comisiwn ar Drefniadau Llywodraeth Leol yng Nghymru, sydd â'r Athro Eric Sunderland OBE yn gadeirydd arno, ei adroddiad ("adroddiad Sunderland") ar 3 Gorffennaf. Tra roedd yn llunio'r adroddiad, cafodd y Comisiwn dystiolaeth gan ystod eang o ffynonellau a lluniodd adroddiad cynhwysfawr, a wnaeth 33 o argymhellion.
4. Roedd datganiad polisi Llywodraeth y Cynulliad yn yr adroddiad 'Rhyddid a Chyfrifoldeb' yn ymrwymo Llywodraeth Cynulliad Cymru i ymgynghori'n eang ar ganfyddiadau'r Comisiwn cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.
5. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 31 Hydref. Cytunwyd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar ganlyniadau'r ymgynghoriad.
6. Derbyniwyd cyfanswm o 163 o ymatebion, yr oedd y rhan fwyaf ohonynt wedi'u cyfyngu i faterion yn ymwneud â'r system bleidleisio. Roedd lleiafrif ohonynt yn ymwneud â materion eraill, materion sy'n berthnasol i ieuenctid a chydraddoldeb yn arbennig. Mae dehongliad o'r ymatebion ar gyfer pob un o'r 33 argymhelliad wedi'u nodi isod.
7. Gellir rhannu'r argymhellion yn wahanol gategorïau – o ran yr ymatebion i'r ymgynghoriad a oedd yn eu crybwyll, yn ogystal â'r camau gweithredu a gynigir. Felly,

mae'r papur wedi grwpio'r argymhellion yn wahanol gategorïau a gwahoddir y Pwyllgor i ystyried yr ymateb a gynigiwyd i bob categori.

**Cynigion yn seiliedig ar yr Ymgynghoriad ar Argymhellion Adroddiad Sunderland**

8. **Nid oedd unrhyw un o'r rhai a ymatebodd yn gwrthwynebu'r argymhellion canlynol yn Adroddiad Sunderland. Rydym yn cynnig nawr bod paratoadau'n cael eu gwneud i'w gweithredu, ac i'r perwyl hwnnw y dylid sefydlu gweithgor o swyddogion o Lywodraeth y Cynulliad, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Cymdeithas y Gweinyddwyr Etholiadol, y Comisiwn Etholiadol ac, ar gyfer materion yn ymwneud â mynediad, Comisiwn Hawliau'r Anabl**

*Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ofyn i'r Comisiwn Etholiadol, fel rhan o'i Strategaeth Ymwybyddiaeth Gyhoeddus, ymgymryd ag ymgyrch wybodaeth yng Nghymru. Dylai'r ymgyrch geisio esbonio pa haen o awdurdod sy'n gyfrifol am ba wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac esbonio hefyd sut mae'n gweithio. Dylid trefnu'r ymgyrch mewn pryd i roi gwybodaeth i bleidleiswyr cyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yn 2004.*

*Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy ymgynghori â llywodraeth leol, wneud trefniadau fel y gellir casglu ystadegau, yn systematig ledled Cymru, ynghylch canran y rhai sy 'n troi allan i bleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol, yn seiliedig ar ddata cyfrifon papurau pleidleisio. Dylai'r trefniadau hyn fod yn barod ar gyfer y rownd nesaf o etholiadau yn 2004.*

*Rydym yn argymell yn gyntaf, y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n gorchymyn cynghorwyr i gyhoeddi "adroddiadau blynyddol" sy'n crynhoi eu gweithgareddau eu hunain (yn hytrach na rhai'r cyngor yn gyffredinol) ar ran pobl leol, ac yn ail, y dylai cynghorwyr ofalu bod yna gyhoeddusrwydd helaeth i amser a lleoliad eu canolfannau cynghori neu eu cymorthfeydd, a dylid eu cynnal mewn lleoliadau sy'n gyfleus i'r cyhoedd.*

*Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru weithio gyda'r Comisiwn Etholiadol i gynhyrchu fideo (dwyieithog) sy'n esbonio'r agweddau ymarferol ar bleidleisio, a threfnu bod y fideo yn cael ei ddosbarthu yn eang, yn enwedig i'r bobl ifainc sydd ar fin ddod yn gymwys i bleidleisio.*

*Rydym yn argymell y dylid estyn y cyfleuster rhadbost (ar gyfer dosbarthu taflenni ymgyrch etholiadol ymysg pleidleiswyr) i etholiadau llywodraeth leol, ac y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer hyn yn ei gyllidebau ar gyfer y blynyddoedd hynny pan gynhelir etholiadau llywodraeth leol.*

*Rydym yn argymell y dylid estyn yr oriau pleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol i fod yn gyson â'r oriau ar gyfer etholiadau seneddol ac etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol h.y.7.00am tan 10.00pm.*

*Rydym yn argymell y dylai ffurflenni enwebu ar gyfer ymgeiswyr fod ar gael ar-lein, ac y dylent hefyd fod yn rhwydd eu cael a'u dychwelyd drwy'r post yn hytrach nag yn y cnawd fel y mae rhai awdurdodau yn mynnu.*

*Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru adeiladu ar eu seminarau diweddar ar Ehangu cyfranogiad drwy gyhoeddusrwydd, yng ngwasg y lleiafrifoedd ethnig a chyfryngau tebyg, ynghylch bod yn ymgeisydd. Gallai'r cyfryw gyhoeddusrwydd fod yn ddefnyddiol o ran cyfeirio at enghreifftiau o fodelau rôl o blith grwpiau sydd ar hyn o bryd heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn dangos y cyfraniad y gall y cyfryw bobl ei wneud mewn democratiaeth leol iach.*

*Rydym yn argymell y dylai sefydliadau'r sector cyhoeddus adolygu eu trefniadau presennol ynghylch rhyddhau staff sy'n dymuno ymgymryd â gwasanaeth cyngor. Nodwn fod hyd at 18 diwrnod y flwyddyn o amser rhydd gyda chyflog ar gael fel arfer, ond nid yw hyn yn ddigonol pan ystyriwn fod cynghorwyr, ar gyfartaledd, yn treulio 90 awr y mis ar wasanaeth cyngor. Rydym yn argymell hefyd y dylai cyflogwyr yn y sector cyhoeddus, wrth iddynt symud yn gynyddol tuag at "fframweithiau cymhwysedd" wrth asesu staff ar gyfer dyrchafiad, roi ystyriaeth lawn a phriodol i'r sgiliau a'r galluoedd y mae'n rhaid i'r gweithwyr sy'n gynghorwyr eu defnyddio fel aelodau o awdurdodau lleol.*

*Rydym yn argymell y dylid cymell cyflogwyr yn y sectorau preifat i gyhoeddi eu polisïau ar gyfer caniatáu amser rhydd i'w gweithwyr ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus (gan gynnwys gwasanaeth cyhoeddus etholedig), ac rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, a sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus, ystyried y datganiadau hynny yn eu harferion caffael.*

*Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried, mewn ymgynghoriad â'i phartneriaid, a fyddai'n ymarferol cyflwyno cynllun iawndal ar gyfer cyflogwyr yn y sectorau preifat a gwirfoddol fel y gallent ganiatáu amser rhydd i'w gweithwyr ar gyfer gwasanaeth cyngor. Hefyd, dylid ystyried iawndal ar gyfer pobl hunan-gyflogedig am amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer gwasanaeth cyngor mewn unrhyw drefniadau o'r fath.*

*Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ar y cyd, sefydlu a rhedeg cynllun gwobrwyo blynyddol sy'n cydnabod cyflogwyr yn y sectorau preifat a gwirfoddol sydd fwyaf cefnogol i'w gweithwyr sy'n dymuno gwasanaethu fel cynghorwyr.*

*Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru gymeradwyo Siarter Cymru i Gynghorwyr fel datganiad o uchelgais, a thrafod â'i phartneriaid yn y cynghorau partneriaeth beth ddylai cyfranogion ei wneud nawr i ofalu bod gofynion y Siarter yn cael eu gweithredu'n llawn.*

*Rydym yn argymell y dylai awdurdodau lleol ddechrau ystyried nawr, gyda golwg ar brofiad awdurdodau Lloegr ym mis Mai 2002 ac adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Ddulliau Pleidleisio Amgen a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, pa drefniadau etholiadol arloesol wedi'u seilio ar ddatblygiad technolegol yr hoffent eu rhagbrofi o bosibl yn 2004; ac rydym yn awgrymu y gallai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod â rôl gydgysylltiol ddefnyddiol er mwyn i amrediad eang o drefniadau arloesol gael eu profi ar draws Cymru bryd hynny.*

*Rydym yn argymell y dylai'r Comisiwn Etholiadol adolygu ac, os yw hynny'n bosibl, symleiddio geiriad y ffurflen datganiad adnabod, ac y dylai ffurflen ddiwygiedig gael ei rhagbrofi ymhlith pobl a allai fod ag angen penodol i ddefnyddio pleidlais bost – er enghraifft pobl hyˆn neu bobl â nam synhwyraidd.*

**9. Cefnogwyd yr argymhellion canlynol ac mae angen i awdurdodau lleol weithredu arnynt. Mae'r argymhellion bellach yn cael eu cymeradwyo i'r awdurdodau lleol.**

*Rydym yn argymell y dylai awdurdodau lleol ddechrau ystyried nawr, gyda golwg ar brofiad awdurdodau Lloegr ym mis Mai 2002 ac adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Ddulliau Pleidleisio Amgen a gyhoeddwyd yn gynharach eleni, pa drefniadau etholiadol arloesol wedi'u seilio ar ddatblygiad technolegol yr hoffent eu rhagbrofi o bosibl yn 2004; ac rydym yn awgrymu y gallai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod â rôl gydgysylltiol ddefnyddiol er mwyn i amrediad eang o drefniadau arloesol gael eu profi ar draws Cymru bryd hynny.*

*Rydym yn argymell y dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru ystyried yn ofalus pa gamau y gall eu cymryd, wrth i Ddinasyddiaeth Weithredol ddod yn rhan o'r Cwricwlwm Cenedlaethol, i godi proffil llywodraeth leol a chael pobl ifainc i'w deall yn well. Bydd pob awdurdod yn dymuno addasu'r rhaglen yn ôl amgylchiadau lleol a gwahanol grwpiau oedran, ond gallai'r cyfryw weithredu er enghraifft gynnwys chwarae rolau o'r math a ddisgrifiwyd uchod, efallai ymweliadau ag ysgolion gan aelodau a staff awdurdodau lleol, ynghyd â ffug etholiadau ar yr un pryd â'r etholiadau llywodraeth leol yn 2004.*

*Rydym yn argymell y dylai cynghorau adolygu eu rhaglenni hyfforddiant a chynefino presennol ar gyfer cynghorwyr newydd a'u diweddaru i gyd-fynd â'r agenda foderneiddio. Gobeithiwn y gall enghreifftiau o arferion gorau yn hyn o beth gael eu rhannu'n helaeth ymhlith awdurdodau. Fe allai cynlluniau mentora ar gyfer aelodau newydd fod â rhan i'w chwarae yn hyn.*

*Rydym yn argymell y dylai pob awdurdod weithio gyda phleidiau gwleidyddol lleol a grwpiau cymunedol er mwyn hyrwyddo'r syniad o aelodaeth cyngor ymhlith pobl leol. Rydym yn tynnu sylw at y cynllun ynadon cysgodi arloesol a drefnwyd ar gyfer aelodau o Operation Black Vote, ac yn awgrymu y dylai awdurdodau ystyried cynlluniau tebyg ar gyfer cysgodi cynghorwyr, yn benodol ar gyfer aelodau o gymunedau lleiafrifol. Byddai'n fuddiol pe bai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn darparu canllawiau i 'w haelod-awdurdodau ynghylch yr hyn y gallant wneud yn briodol i gynyddu maint, a gwella amrywioldeb, y gronfa ymgeiswyr tebygol. Dylai pleidiau gwleidyddol a sefydliadau sy'n cynrychioli grwpiau cymunedol ystyried beth ellir ei wneud yn lleol er mwyn cymell rhagor o bobl i ystyried bod yn ymgeiswyr.*

*Rydym yn argymell y dylai pob awdurdod "fynd allan at y bobl" drwy gynnal rhai cyfarfodydd pwyllgor mewn lleoliadau sy'n gyfleus i'r cyhoedd ledled ardal yr awdurdod yn ogystal â, neu yn lle, cyfarfodydd yn swyddfeydd y cyngor. Fe allai'r rhain fod yn gyfarfodydd polisi sy'n arbennig o berthnasol i'r gymdogaeth, er enghraifft yn ymwneud â materion cynllunio. Ar y llaw arall, fe allent fod ar ffurf sesiynau Holi ac Ateb neu sesiynau "meicroffon-agored" ar faterion o bwys cyffredinol; gallent roi cyfle i'r etholwyr holi aelodau o'r 9 cabinet am gynlluniau polisi penodol neu agweddau ar y broses Gwerth Gorau neu Welliant, yn ogystal â chwestiynau manylach am ddarparu gwasanaethau yn lleol.*

*Rydym yn argymell y dylai pob awdurdod adolygu ei strategaeth ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'w weithgareddau drwy'r cyfryngau lleol, cysylltu â grwpiau cymunedol lleol a defnyddio gwefannau. Ar hyn o bryd, mae gwefannau rhai awdurdodau yn cynnig llawer o wybodaeth am gyfarfodydd y cyngor a'i bwyllgorau, agendâu a chofnodion, tra bo eraill yn cynnig fawr ddim o wybodaeth felly, credwn y dylai gwefan pob cyngor gynnwys deunydd cynhwysfawr o'r math hwn.*

*Rydym yn argymell y dylai cynghorau sefydlu dulliau ffurfiol i drafod deisebau gan bobl leol. Dylai'r dulliau hyn gynnwys rhoi cyfle i ddeisebwyr annerch cyfarfod priodol o'r cyngor neu bwyllgor am gyfnod byr cyn i'r mater gael ei drafod. Dylai parodrwydd yr awdurdod i dderbyn ac ystyried deisebau fel hyn gael cyhoeddusrwydd eang (ac efallai dylai ffurflenni deiseb fod yn hawdd i'w cael, naill ai ar-lein neu drwy ddulliau mwy traddodiadol).*

**10. Cefnogwyd yr argymhellion canlynol a'u diben yw cadarnhau arferion a pholisïau cyfredol; nid oes angen gweithredu arnynt ar unwaith.**

*Rydym yn argymell y dylid cadw'r patrwm cyffredinol presennol o ran nifer cynghorwyr ym mhob awdurdod.*

*Rydym yn argymell y dylai cynghorwyr barhau i gael eu hethol i awdurdodau lleol yng Nghymru bob pedair blynedd.*

*Rydym yn argymell y dylid cynnal etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru mewn blynyddoedd pan na chynhelir etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.*

*Rydym yn argymell y dylid parhau i drefnu etholiadau i awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer cynghorau cyfan.*

*Rydym yn argymell na ddylid rhoi ystyriaeth bellach i wneud pleidleisio yn orfodol mewn etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru.*

**11. Nid oedd cefnogaeth glir i'r argymhelliad canlynol ac rydym yn cynnig peidio â gweithredu arno:**

*Rydym yn argymell y dylai'r gofyniad ar gyfer nifer y llofnodion i gefnogi enwebiadau ymgeiswyr ar gyfer etholiadau llywodraeth leol fod yn gyson â'r gofyniad ar gyfer etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol h.y.y dylai enwebiad pob ymgeisydd gael ei gefnogi gan lofnod dau etholwr yn hytrach na deg, fel ar hyn o bryd.*

**12. Cynigir bod yr argymhelliad canlynol, a gafodd ei gefnogi, yn cael ei gyfeirio i'r adolygiad cyfredol o gynghorau tref a chymuned yng Nghymru.**

*Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru, ar ôl ymgynghori â'r cymdeithasau sy'n cynrychioli cynghorau tref a chymuned yng Nghymru, roi cyfarwyddyd i gynghorau cymuned y dylai seddau gwag sydd i gael eu llenwi drwy gyfethol gael eu hysbysebu yn eang yn eu hardaloedd,gyda sylw penodol i hysbysu grwpiau cymuned a sefydliadau pobl ifainc am y seddau gwag hyn.*

**13. Cefnogwyd yr argymhellion hyn. Byddai eu gweithredu yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynullliad Cenedlaethol geisio perswadio Llywodraeth y DU i ddeddfu ar gyfer pob rhan o'r Deyrnas Unedig. Gofynnir i'r pwyllgor ystyried a yw'n debygol y bydd digon o gefnogaeth**

**wleidyddol eang yng Nghymru i gyfiawnhau gofyn i Lywodraeth y DU ystyried hyn; ac er mwyn ei helpu i ystyried, awgrymir y gellid gwahodd dinasyddion ifanc i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar y materion hyn.**

*Rydym yn argymell y dylid gostwng yr oedran pan fo hawl i ddechrau pleidleisio mewn etholiadau llywodraeth leol i 16 oed. Sylweddolwn y byddai hyn yn golygu y gallai'r bobl ifainc hyn bleidleisio hefyd, yn ôl y gyfraith bresennol, yn yr etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, a byddem yn fodlon ar hyn. Rhaid i eraill benderfynu a ddylid newid y drefn yn yr un modd ar gyfer etholiadau seneddol.*

*Rydym hefyd yn argymell y dylid gostwng yr oedran pan fo hawl am y tro cyntaf gan bobl i fod yn ymgeiswyr o 21 i 18 (ond nid i 16,sef yr oedran a argymhellwyd gennym pan ddylai pobl fod â'r hawl i bleidleisio). Rydym yn gwneud hyn, nid oherwydd ein bod yn disgwyl y bydd llawer o ymgeiswyr 18 oed yn ymddangos yn sydyn, ond yn hytrach oherwydd y bydd yn galluogi cynghorau cymuned i gyfethol pobl 18 oed a throsodd i lenwi seddau gwag,ac felly efallai yn darbwyllo pobl mor ifanc i symud ymlaen gydag amser i fod yn ymgeiswyr ar gyfer cynghorau sir/bwrdeistref sirol*

**14. Roedd Comisiwn Sunderland yn rhanedig yn ei argymhellion yn ymwneud â'r Adroddiad ar y Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd yn rhanedig: roedd 76 o blaid peidio â newid ac roedd 63 yn cefnogi argymhelliad mwyafrif aelodau'r Comisiwn. Cynigir bod y Pwyllgor yn gwahodd detholiad o'r rhai a ymatebodd a gyflwynodd ddadleuon ar y pwnc hwn i ddod i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.**

*Mae'r mwyafrif ohonom yn argymell y dylid cyflwyno'r Bleidlais Sengl Drosglwyddadwy ledled Cymru fel y system fwyaf addas ar gyfer etholiadau llywodraeth leol yn y dyfodol. Bydd y system hon yn caniatáu i bleidleiswyr gael cynrychiolaeth effeithiol ar bob awdurdod lleol o ran amrywiaeth barn leol, ac adlewyrchiad priodol yn ei chyfansoddiad o amrywioldeb y bobl leol; mae'n dal i roi cynrychiolaeth sy'n seiliedig ar etholaeth i bobl leol; a gallai olygu y bydd canran uwch o bobl yn troi allan i bleidleisio mewn etholiadau lleol ac y bydd llai o seddau heb ornest, tra, ar yr un pryd, yn galluogi ymgeiswyr anwleidyddol (Annibynnol) i gael cyfle rhesymol o hyd i lwyddo mewn etholiadau lleol.**

*Mae'r mwyafrif ohonom yn argymell y dylai'r rownd gyntaf o etholiadau llywodraeth leol yng Nghymru dan STV ddigwydd yn 2008. Bydd angen deddfwriaeth sylfaenol, ac rydym yn argymell y dylai fod mewn grym erbyn diwedd sesiwn Seneddol 2003-04. Yn fuan wedyn dylai'r Cynulliad Cenedlaethol roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ynghylch cynnal adolygiadau o ffiniau ardaloedd etholiadol. Dylai'r Comisiwn fod wedi cwblhau'r adolygiadau o ardaloedd etholiadol ym mhob ardal awdurdod lleol erbyn mis Mawrth 2007, a gwneud argymhellion ar gyfer y ffiniau a nifer yr aelodau (fel arfer rhwng tri a phump) i'w dychwelyd o'r ardaloedd etholiadol hynny. Dylai hyn ddod i rym yn ddigon cynnar i ganiatáu dewis ymgeiswyr yn drefnus cyn etholiadau mis Mai 2008.*